

Cofnodion Cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2020 am 6.30 o'r gloch ar Zoom. (Dechreuodd y cyfarfod am 6.34 fel bod pawb wedi gallu ymuno)

Presennol: Cyngorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas (Dirprwy), Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Alyn Ashworth, Glenn Swinger, Rob Parkes, Dyfrig Berry, Philip Stevens, Lara Pritchard & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref a Carys Jones (Cynorthwydd Dinesig)

Ymddiheuriadau: Cyng Irene Williams

Arsylwi : Cyngorwyr Gwyneth Kensler & Pauline Edwards

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor llawn ym mis Tachwedd

251 Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	Eitem	Personol neu Niweidiol
Gaynor Wood Tickle	7.3.2	Niweidiol
Roy Tickle	7.3.2	Niweidiol
Sylvia Jennings	8.1	Personol

252 Cadarnhau Cofnodion

Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 14 Hydref 2020. (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd gwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

253 Materion yn codi:

- 253.1** 239.1, Mae'r hysbysfyrddau wedi'u hychwanegu at y prosiectau ar gyfer 2021ac i'w trafod yng nghyfarfod cyn y gyllideb ar 25 Tachwedd. Nodwyd hyn.
- 253.2** 239.3, Derbyniwyd cadarnhad gan Gymorth cynllunio Cymru bod y tal yn £150.00 am hyd at 20 i'w ddefnyddio. Cytunwyd a nodwyd hyn. Clerc y Dref i brynu'r pecyn.
- 253.3** 239.5, Cynrychiolydd cyngorau cymuned ar fwrdd gwasanaethau cyhoeddus Conwy/Sir Ddinbych. Cadarnhad na all Clerc y Dref fod yn gynrychiolydd. Mae angen i unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymgeisio gwneud hynny'n uniongyrchol. Nodwyd hyn.
- 253.4** 239.8, Difrod i amgylchyn y ffynnon - diweddariad. Mae'r ddwy ffynnon wedi'u gwagio a byddant yn cael eu glanhau ac ail lenwi. Mae'r ddau ddarn coll bellach wedi'u darganfod felly bydd Clerc y dref yn cael dyfynbris am eu gosod yn ôl ar y ffynnon.
- 253.5** 239.11, Diweddariad ynghylch Gweithdai datblygu cymunedol Sir Ddinbych. Nodwyd hyn, dim mwy o fanylion yn ofynnol.
- 253.6** 239.12, Diweddariad ynghyn a darparu mynediad gwell i'r gymuned fyddar. Bydd y Clerc yn cadw'r manylion rhag ofn eu hangen yn y dyfodol. Nodwyd hyn.
- 253.7** 240.5, Diweddariad ynghyn ar Lyfr gwyrdd gan glerc y dref. Nid oes copi gwirioneddol o'r llyfr felly bydd Clerc y Dref yn edrych ar rai polisïau sy'n amddiffyn y Cyngor Tref ar Staff.
- 253.8** 246 Derbyniwyd cadarnhad nad yw'r adran etholiadol yn gallu cylchredeg gwybodaeth gyda'r wybodaeth bleidleisio. Nodwyd hyn.
- 253.9** 248, Derbyniwyd hysbysiad gan Grŵp Cynefin yn cynghori nad oedd y diweddariad yn barod ar hyn o bryd ac y bydd yn cael ei anfon ymlaen at y Cyngor Tref mewn amser. Nodwyd hyn
- 253.10** 249, Profwyd y gwifrau catenary 28.10.20 a phasiodd pob un gan gynnwys Gwesty'r Goron. Mae CSDd wedi cael eu hysbysu a bydd adroddiad yn dilyn.
- 253.11** 226.7, Mae cynllunio wedi'i gymeradwyo ond codir tal o £185.00 am godi dodrefn stryd. Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd gyda CSDd. Mae'r ffi bellach wedi'i

hepgor (CSDd wedi cadarnhau). Aros am y gymeradwyaeth derfynol gan yr adran Prifffyrdd yna bydd angen i hysbysiad fynd yn y Free Press ac yn agos at y lleoliad i gynghori'r cyhoedd. Bydd angen i hyn fod ar waith am ychydig wythnosau.

254 Coronofirws.

I dderbyn diweddariadau gan y llywodraeth, ULIC, SLCC, NALC a CSDd mewn perthynas â'u trefniadau wrth gefn/diweddariad ac argymhellion arfaethedig. (wedi'i gylchredeg eisoes os yw'n berthnasol.)

255 Gohebiaeth a dderbyniwyd

- 255.1** Derbyn e-bost gan Glwb Pêl Droed Dinbych yn gofyn am lythyr o gefnogaeth - Cytunwyd hyn.
- 255.2** Cronfa i fusnesau dan gyfyngiadau symud - Nodwyd hyn.
- 255.3** E-bost gan GSDd - Cyllid Covid19 Canol Tref Llywodraeth Cymru - Trafodwyd hyn a chytunwyd i ychwanegu at yr agenda ar gyfer Tachwedd 25 fel bod pob Cynghorydd Tref yn cael cyfle i feddwl am syniadau. Bydd Clerc y Dref yn cylchredeg y rhestr o'r hyn y gall y Cyngor Tref ei brynu.
- 255.4** Ebost gan GSDd - Goleuo fyny Sir Ddinbych - Trafodwyd a chytunwyd ar hyn gan Y Cynghorwyr Tref. Yr amser roeddent yn cynnig oedd yr run peth ar oleuadau newydd ar ardaloedd oedd Y Castell neu Eglwys Caerlŷr.
- 255.5** Ebost gan GSDd - carubusnesau lleol - Nodwyd hyn ond hoffai'r Cynghorwyr Tref fod pob cyflenwr yn lleol. Gofynnwyd i'r Clerc y Dref ysgrifennu at y Grŵp Busnes i sicrhau bod eu busnesau ar restr gaffael CSDd.
- 255.6** Ebost gan ULIC - Trefniadau archwilio yn y dyfodol - Nodwyd hyn.
- 255.7** Ebost gan Ricardo Mulinda - Ynghyn a thaith arfaethedig i Ddinbych yn Ebrill/Mai 2021 - Trafodwyd hyn a gwnaed 2 gynnis, Gofynnodd y Cyng Philip Stevens am bleidlais wedi'i recordio. Cynigodd y Cyng Philip Stevens y dylai'r Cyngor Tref dderbyn y gwahoddiad a dylai'r ymweliad ddigwydd. Eilwyd y cynnis hwn gan y Cyng Alyn Ashworth. Gwnaeth y Cyng Catherine Jones wrth gynnis i ymateb yn diolch am y gwahoddiad ond nid oedd yr amser yn addas. Eilwyd y cynnis hwn gan y Cyng Gaynor Wood-Tickle. Canlyniad y bleidlais oedd -
Derbyn y gwahoddiad - Cynghorwyr Philip Stevens, Alyn Ashworth a Gaynor Morgan Rees (3)
Gwrthod y gwahoddiad - Cynghorwyr Catherine Jones, Gaynor Wood-Tickle, Rhys Thomas, Roy Tickle, Rob Parkes, Lara Pritchard, Dyfrig Berry, Glenn Swingler a Sylvia Jennings (9)
Gofynnwyd i'r Clerc y Dref anfon llythyr gyda'r penderfyniad.
- 255.8** Cronfa Fferm Wynt y Goedwig Clocaenog - Nodwyd hyn.
- 255.9** Ymgynghoriad ar sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun datblygu strategol) (Cymru 2021) Nodwyd hyn, unrhyw adborth i gael ei e-bostio i'r Clerc y Dref.
- 255.10** Ymgynghori - Rheoliadau ar gyfer sefydlu cydbwyllgorau corfforedig - Nodwyd hyn, unrhyw adborth i gael ei ebostio i'r Clerc y Dref.
- 255.11** Cynlluniau sydd i ddod ar gyfer ymgynghoriad rhithiol ar Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr - Nodwyd hyn.
- 255.12** Cyrsiau hyfforddiant ULIC - Tachwedd 2020 - Nodwyd hyn. Mynegodd y Cyng Catherine Jones ddiddordeb a bydd yn cysylltu yn uniongyrchol a'r Clerc y Dref i drefnu.

Gofynnodd y Cyng Rhys Thomas fod yr adran Cynghorwyr Sir yn cael ei roi yn ôl ar yr agenda nesaf.

256 Cyllid

256.1 Taliadau.

256.1.1 Taliad sy'n gofyn am awdurdodiad:

- | | | |
|------------------|--|--------------------|
| 256.1.1.1 | Neuadd y Dref Dinbych, taliad 2ail chwarter hyn.
(Rhif Siec 007266) | £9,250.00 Cytunwyd |
| 256.1.1.2 | PWLB - 2ail ad-daliad benthyciad hyn.
(Rhif Siec 007205) | £6,989.60 Cytunwyd |

256.2 Adroddiadau Cyllid - Bydd hyn yn cael ei roi ar agenda Tachwedd 25.

256.3 Cais am Gymorth

256.3.1 Cyngor am Bopeth Sir Ddinbych S142 £3,500.00 (Rhif Siec 007203)

256.3.2 Grŵp Digwyddiadau Dinbych, S137 £520.00 (Rhif Siec 007204) Gofynnodd y Cyng Rhys Thomas am adroddiad hefo enwau swyddogion y grŵp a chopi o'r cyfrifon archwiliedig.

256.4 Dyfynbris - Trafodwyd a Chytunwyd y canlynol -

256.4.1 Atgyweirio Coed Crisial y Balconi _ CSDd

256.4.2 Catalyst uwchraddion i'r Teleffoni

257 Cynllunio

257.1 01/2020/0758

Y Garreg Lwyd, 88 Love Lane, Dinbych
Bwriad i godi estyniad i ochr yr annedd.

Dim gwrthwynebiad

.....

257.2 01/2020/0792

Pen y Ffordd, Dinbych
Codi estyniad un llawr i gefn yr annedd ac addasiadau.

Dim gwrthwynebiad

.....

257.3 01/2020/0793

Parciau, St Davids Lane
Gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.

Dim gwrthwynebiad

.....

257.4 01/2020/0720

120 Stryd y Dyffryn, Dinbych

Newid defnydd rhan o'r llawr gwaेलod o breswyl (Dosbarth Defnydd C3) i gaffi (Dosbarth Defnydd A3)

Dim gwrthwynebiad

.....

258 Sedd Wag

- 258.1 Dinbych Isaf** - Derbyniwyd 2 gais ac yn dilyn pleidlais enwebwyd Carla Hargreaves fel Cynghorydd Tref newydd Dinbych Isaf. Bydd Clerc y Dref yn cysylltu â Carla ac yn gwneud trefniadau i'r ffurflen dderbyn gael ei gwblhau yn ogystal â threfnu sesiwn sefydlu trwy Zoom.
- 258.2 Dinbych Uchaf** - Dyddiad cau hefo CSDd - 14.10.20. Wedi cael cadarnhad gan yr adran etholiadol bod yna ddim cyswllt gan neb felly bydd hwn bellach yn cyfethol. Dyddiadau i'w gadarnhau gan Clerc y Dref.

259 Cyfarfodydd Zoom - rhannu dogfennau a dehongli iaith mewn cyfarfodydd.

Dywedodd Clerc y Dref fod Carys a hi ei hun wedi bod yn edrych ar y rhannu o ddogfennau ac wedi gwneud rhai sesiynau ymarfer. Nid yw'r gwasanaeth cyfieithu ar ein pecyn Zoom ond bydd Clerc y Dref yn cysylltu â nhw i weld a allwn uwchraddio ac yna edrych ar rai sesiynau ymarfer gyda Catrin ein Cyfieithydd. Dywedodd y Cynghorydd Rhys Thomas fod CSDd eisoes wedi cychwyn y gwasanaeth hwn, roedd rhai problemau cychwynnol wedi digwydd ond mae'r cyfieithu ar yr un pryd yn gwella. Dywedwyd y dylai clerch y dref gysylltu â CSDd i gael gwybodaeth am arfer da.

260 Cyfarfodydd Cynllunio a Chyllid ac Amgylchedd Mis Mawrth - Diweddariad

Dywedodd Clerc y Dref fod angen cynnal cyfarfod ar gyfer pob pwyllgor er mwyn derbyn y cofnodion o'r cyfarfodydd Mis Chwefror. Cytunodd y Cynghorwyr Tref i'r rhain fod ar Ddydd Llun yn y wythnosau i ddod. Bydd Clerc y Dref yn cynghori dyddiadau ar ol eu trefnu.

261 Neuadd y Dref - Diweddariad gan Clerc y Dref

Dywedodd Clerc y Trefi fod sgwrs teleffon wedi digwydd ond ni dderbyniwyd y cadarnhad mewn ysgrifen eto. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf. Cadarnhaodd Clerc y Dref fod y gwaith ar y Gegin newydd i fod i ddechrau yn ystod yr wythnosau nesaf a'i bod wedi gofyn am wybodaeth ynghyn a'r llawr sbring, tanc olew a bod angen rhai ffenestri newydd. Bydd y cyfarfodydd yn parhau ond bydd amserlen yn cael ei gadarnhau unwaith y derbynnir y cadarnhad mewn ysgrifen.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 8.35yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....